

Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a  
Deddfwriaethol  
Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)

National Assembly for Wales  
Constitutional and Legislative Affairs  
Committee  
Senedd and Elections (Wales) Bill

CLA(5) SE27  
Ymateb gan unigolyn

Evidence from individual

---

Rwy'n cysylltu ynghylch y bwriad i ailenwi'r Cynulliad Cenedlaethol, a'r tro pedol ar yr ymrwymiad blaenorol i alw'r sefydliad yn 'Senedd' ym mhob iaith.

Mae llawer yn cyfeirio at y sefydliad fel 'Senedd' eisoes, yn y ddwy iaith. Prin fod y term "Welsh Parliament" yn cael ei ddefnyddio o gwbl ar hyn o bryd, a byddai ei gyflwyno nawr fel rhyw enw 'lled-swyddogol' yn gam yn ôl ac yn creu dryswch. Daw pawb i ddeall Senedd yn fuan iawn os mai dyma fydd yr unig enw. Mae pobl Gweriniaeth Iwerddon yn adnabod eu senedd hwythau o dan yr enw uniaith Gwyddelig "Dail" heb unrhyw drafferth, er mai Saesneg yw prif iaith y mwyafrif.

Os yw'r Gymraeg yn perthyn i bawb, fel y dywedir yn aml, dyma gyfle gwych i'n corff democrataidd cenedlaethol ddangos hynny, drwy roi'r gair yma yn rhodd i bawb ei rannu.

Croesawyd y cyhoeddiad i ddefnyddio 'Senedd' yn y ddwy iaith gan grwpiau, sefydliadau, Aelodau'r Senedd ac unigolion. Mae'n cynnig un enw ac un logo syml y gall pawb ei ddefnyddio. Mae nifer o bobl ddi-Gymraeg wedi dweud eu bod yn teimlo bod y dadleuon dros gyflwyno ail enw yn Saesneg yn nawddoglyd tuag atynt. Beth bynnag ein gallu yn yr iaith, mae 'Senedd' yn enw y gall pawb fod yn falch ohono.

Dyma gyfle i gael hyn yn iawn ac i wneud penderfyniad y gall pobl edrych yn ôl arno gyda balchder. Dylai enw ein corff democrataidd cenedlaethol, ein Senedd, atseinioystal â'n hanthem genedlaethol.

Rwy'n mawr obeithio eich bod yn cytuno, ac y byddwch yn cefnogi diwygio'r Bil er mwyn sicrhau bod enw a logo uniaith Gymraeg ar ein corff democrataidd cenedlaethol.

I'm writing regarding the intention to rename the National Assembly, and the u-turn on the previous commitment to call the institution 'Senedd' in all languages.

Many refer to the institution as the 'Senedd' already, in both languages. The term "Welsh Parliament" is barely used at all at the moment - introducing it now as some kind of de facto official name would be a step backwards and can only create confusion. Everyone will come to understand 'Senedd' very soon if that is the only name. The people of the Irish Republic know their parliament by the Irish name "Dail" without any problems, although English is the language of the majority there.

If the Welsh language belongs to everyone, as is said often, this is a great opportunity for our national democratic body to demonstrate that, by giving everyone this Welsh language name that we can all share.

The original announcement that the name 'Senedd' was going to be used in both languages was welcomed by many groups, institutions, Members of the Senedd and individuals. It offers one simple name and logo that everyone can use. A number of people who don't speak Welsh have said they feel that the arguments for introducing a second, English language name are patronising to non-Welsh speakers. Whatever our ability in Welsh, 'Senedd' is a name that we can all be proud of.

This is the chance to get this right and to make a decision that people can look back on with pride. The name of our national democratic body, our Senedd, should ring as clearly as our national anthem.

I very much hope that you agree, and that you will support amending the Bill to ensure a single Welsh name and logo for our national seat of democracy.